**DYDDIAD CYHOEDDI:**
Gorffennaf 2026



# Bwrdd Taliadau Annibynnol

## Adroddiad Blynyddol

**2025-26**

**BWRDD** TALIADAU
REMUNERATION **BOARD**

## Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd

Mae Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd yn gwneud penderfyniadau annibynnol ar y tâl a'r cymorth uniongyrchol a roddir i Aelodau'r Senedd er mwyn denu ystod eang o ymgeiswyr galluog ac amrywiol ac i alluogi'r rhai a gaiff eu hethol yn Aelodau i gyflawni eu swyddi yn effeithiol, gan sicrhau gwerth am arian i bobl Cymru.

Sefydlwyd y Bwrdd gan Fesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010.

Mae copïau o'r Penderfyniad hwn hefyd ar gael mewn fformatau hygyrch gan gynnwys Braille, print bras, sain neu gopi caled gan:

**Clerc Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd**
**Senedd Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **Taliadau@senedd.cymru**

**DYDDIAD CYHOEDDI:**
Gorffennaf 2026

# Bwrdd Taliadau Annibynnol
## Adroddiad Blynyddol

**2025-26**

**BWRDD** TALIADAU
REMUNERATION **BOARD**

# Aelodaeth



**Dr. Elizabeth Haywood**



**Yr Arglwydd Nicholas Bourne**



**Gareth Llewellyn**



**Jennifer Long**



**Hugh Widdis**

# Cynnwys


1. Rhagair y Cadeirydd .... 6
2. Ein Gwaith 2025-26 .... 8
3. Gwaith y Bwrdd .... 11
4. Penderfyniad ymatebol .... 14
5. Penderfyniad symlach .... 17
6. Penderfyniad cynaliadwy .... 19
7. Hyrwyddo ymddiriedaeth ac ymgysylltu .... 22
8. Edrych ymlaen – tymor newydd y Senedd .... 26

Atodiad A: Bywydau Aelodau'r Bwrdd .... 27

Atodiad B: Gwariant y Bwrdd 2025-26 .... 32



Dr. Elizabeth Haywood

# 1. Rhagair y Cadeirydd

Mae hon wedi bod yn flwyddyn arwyddocaol i'r Bwrdd. Wrth i'r Chweched Senedd ddod i ben a'r paratoadau ar gyfer y Seithfed Senedd gyflymu, buom yn canolbwyntio ar sicrhau bod y fframwaith ar gyfer cyflogau, staffio a chymorth busnes i'r Aelodau yn parhau'n deg ac yn addas at y diben ar gyfer cyd-destun seneddol sy'n newid.

Mae'r Bwrdd wedi gweld newid sylweddol hefyd, gyda thri aelod newydd yn ymuno yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Dros gyfnod 2025-26, rydym wedi parhau â'n rhaglen waith fawr i wella a symleiddio'r Penderfyniad, wedi'i lywio gan ymgynghori, tystiolaeth ac ymgysylltu helaeth ag Aelodau, eu staff, grwpiau cynrychioliadol a Chomisiwn y Senedd.

Rydym wedi cyhoeddi Penderfyniad gwahanol iawn ar gyfer y Seithfed Senedd, sef un sy'n cynnwys sawl newid polisi sylweddol ar ôl cynnal adolygiad cynhwysfawr, ac sydd hefyd yn llawer cliriach, yn symlach ac yn haws i'w ddarllen a'i ddeall, gan leihau nifer y geiriau bron i hanner.

Hoffwn dalu teyrnged i'm cyd-Aelodau ar y Bwrdd dros y cyfnod o bum mlynedd am gymryd yr awenau mewn meysydd allweddol: Yr Arglwydd Hanson o'r Fflint ar ffyrdd o weithio; y diweddar Mike Redhouse ar gyflogau a graddio staff; y Fonesig Jane Roberts ar Gymorth i Grwpiau Gwleidyddol; a Hugh Widdis ar symleiddio.

Ochr yn ochr â'r gwaith hwn, rydym wedi bod yn ymateb i amgylchiadau a gofynion sy'n newid, wedi ymgynghori ar faterion fel talu cadeiryddion pwyllgorau a all fod yn rhannu swydd, ac wedi adolygu'r amserlen weithredu ar gyfer y fframwaith cyflogau a graddio staff. Drwy gydol y broses, rydym wedi ceisio cydbwyso hyblygrwydd ac ymatebolrwydd ag atebolrwydd, gwerth am arian ac amgylchiadau ariannol ehangach Cymru.

Rwy'n falch o'n gwaith ar y cyd ac yn hyderus y bydd y Penderfyniad ar gyfer y Seithfed Senedd yn taro'r cydbwysedd cywir rhwng ymatebolrwydd i ofynion y Senedd newydd a gofynion newydd yr Aelodau o ran ffyrdd o weithio, gan hyrwyddo uniondeb a gwerth am arian.

Rwy'n arbennig o falch bod yr adolygiad annibynnol o'r Bwrdd a gyhoeddwyd fis Rhagfyr diwethaf wedi dod i'r casgliad bod y Bwrdd yn effeithiol a bod ein dull o weithio yn gymesur ac yn hwyluso gwneud penderfyniadau o ansawdd da. Derbyniodd y Bwrdd yr adroddiad a'i argymhellion ar gyfer gwella yn llawn.

Hoffwn ddiolch i aelodau presennol a chyn-aelodau'r Bwrdd, ein hysgrifenyddiaeth a phawb sydd wedi cyfrannu at ein gwaith yn ystod y flwyddyn. Mae eu harbenigedd, eu her a'u hymgysylltiad adeiladol wedi ein helpu i wneud penderfyniadau sy'n cefnogi'r Aelodau i gyflawni eu cyfrifoldebau'n effeithiol a chynnal hyder y cyhoedd ar yr un pryd.

Wrth i dymor newydd y Bwrdd ddechrau ar ei ail flwyddyn a'r Seithfed Senedd yn dechrau ffurfio, rydym yn parhau wedi ymrwymo i ymgysylltu'n agored, gwneud penderfyniadau clir ac adolygu parhaus fel bod ein trefniadau'n parhau i ddiwallu anghenion senedd fodern a hygyrch.



**Dr Elizabeth Haywood**

**Cadeirydd, Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd**

# 2. Ein Gwaith 2025-26

**Cipolwg:** blwyddyn o ymgysylltu dwys, penderfyniadau polisi allweddol a pharatoadau terfynol ar gyfer y Seithfed Senedd.

**10**
**Cyfarfodydd y Bwrdd**

**4**
**Ymgynghoriadau ffurfiol wedi'u cyhoeddi**

**4**
**Penderfyniad a gyhoeddwyd (Gan gynnwys 3 Phenderfyniad Eithriadol)**

**1**
**Adolygiad Annibynnol Diwedd Tymor wedi'i gomisiynu a'i gyhoeddi**

### YMGYSYLLTU

Sesiynau galw heibio gydag Aelodau

5 Cyfarfodydd Grŵp Cynrychiolwyr yr Aelodau

5 Cyfarfodydd Grŵp Cynrychiolwyr Staff

Cyfarfodydd gyda'r Llywydd a Chomisiwn y Senedd, Prif Weithredwr y Senedd, Comisiynydd Safonau y Senedd a Chadeirydd yr Adolygiad o Senedd sy'n Gynhwysol ac Ystyriol o Deuluoedd.

### YR ADOLYGIAD ANNIBYNNOL DIWEDD TYMOR

Comisiynwyd adolygiad annibynnol o'r Bwrdd; derbyniwyd ef a chyhoeddwyd ei argymhellion yn llawn.

Y casgliadau allweddol oedd:

- Mae'r Bwrdd yn 'weithredol ac effeithiol iawn'
- [Mae'r] fframwaith llywodraethu yn gymesur, yn addas at y diben, ac yn hwyluso gwneud penderfyniadau o ansawdd da.'

### DYLANWADU A RHANNU GWYBODAETH

3 chyfarfod â Chadeiryddion rhwydwaith cyrff cyflogau y DU

Aelodaeth o 'Beth yw pris democratiaeth?' yr Awdurdod Safonau Seneddol Annibynnol (IPSA) Panel Cynghori a'r panel penodi ar gyfer Bwrdd Taliadau Cynulliad Gogledd Iwerddon.

### Y PENDERFYNIAD AR GYFER Y SEITHFED SENEDD

Ymgynghori a chwblhau cynigion polisi craidd gan gynnwys cyflog a chymorth i Aelodau, gwaith staffio etholaethol a chymorth staffio.

Cyhoeddi asesiadau effaith o ran cydraddoldeb a'r Gymraeg.

Penderfyniad symlach a mwy effeithlon – gostyngiad o 45% yn nifer y geiriau.

## EIN DIBEN

Mae **Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd** yn gwneud penderfyniadau annibynnol ar y cyflog a'r cymorth uniongyrchol a roddir i Aelodau o'r Senedd er mwyn denu ystod eang o ymgeiswyr galluog ac amrywiol, ac i alluogi'r rheini a gaiff eu hethol yn Aelodau i gyflawni eu swydd yn effeithiol, gan sicrhau gwerth am arian i bobl Cymru.

## EIN HEGWYDDORION ARWEINIOL

Rydym yn gwneud penderfyniadau ar y system cymorth ariannol a thâl cydnabyddiaeth i Aelodau.

Dylai ein penderfyniadau fod yn briodol yng nghyddestun enillion yng Nghymru ac amgylchiadau ariannol ehangach Cymru.

Dylai ein penderfyniadau gefnogi pwrpas strategol y Senedd a hwyluso gwaith ei Haelodau.

Dylai ein penderfyniadau fod yn gadarn, yn glir, yn dryloyw, yn gynaliadwy, yn gynhwysol, ac yn cynrychioli gwerth am arian i'r trethdalwr.

## EIN NODAU AR GYFER Y TYMOR

Galluogi Aelodau'r Chweched Senedd i gyflawni eu gwaith seneddol yn effeithiol, yn eu hardal leol ac yn y Senedd. Paratoi pecyn cyflog a chefnogaeth ar gyfer y Seithfed Senedd.

**Y cyfan o fewn cyd-destun cyfansoddiadol, cymdeithasol a byd-eang sy'n newid.**

### EIN HAMCANION STRATEGOL:

**PENDERFYNIAD YMATEBOL:** Cyflwyno Penderfyniad sy'n ymateb i anghenion busnes newidiol Aelodau, disgwyliadau dinasyddion a'r cyd-destun cyfansoddiadol esblygol.

**PENDERFYNIAD SYMLACH:** Symleiddio'r Penderfyniad i ddarparu hyblygrwydd i Aelodau i bennu eu blaenoriaethau eu hunain, gyda mesurau diogelwch cymesur, mewn cydweithrediad â Chomisiwn y Senedd.

**PENDERFYNIAD CYNALIADWY:** Cyflwyno model cynaliadwy o gefnogaeth, sy'n ystyried anghenion o ran amrywiaeth, yr argyfwng newid yn yr hinsawdd a chyllid yn y tymor hir yng Nghymru.

**HYRWYDDO YMDDIRIEDAETH AC YMGYSYLLTU:** Ymgysylltu'n effeithiol ag Aelodau ac ystod ehangach o randdeiliaid i alluogi adolygiadau effeithiol a hyrwyddo ymddiriedaeth y cyhoedd.

### SUT BETH YW LLWYDDIANT:

- Mae Aelodau'n ymddiried ac yn parchu'r penderfyniadau a wnawnac yn eu hystyried yn deg, yn seiliedig ar dystiolaeth ac yn glir.
- Mae gan Aelodau hyder bod ein penderfyniadau yn eu galluogi i gyflawni eu gwaith fel cynrychiolwyr etholedig yn effeithiol.
- Mae gan y cyhoedd hyder bod y system i ddarparu cefnogaeth ariannol i Aelodau yn darparu gwerth am arian, yn dryloyw, ac yn gweithredu'n annibynnol.

# 3. Gwaith y Bwrdd

### Pwy sy'n aelodau o'r Bwrdd?

**1.** Dechreuodd y Bwrdd dymor pum mlynedd newydd ym mis Medi 2025.

**2.** Dechreuodd y Cadeirydd, Dr Elizabeth Haywood, a Hugh Widdis eu hail gyfnod o bum mlynedd o fis Medi 2025 ymlaen.

**3.** Yn dilyn proses recriwtio gyhoeddus, penododd Comisiwn y Senedd yr Arglwydd Nicholas Bourne o Aberystwyth, Jennifer Long, y ddau o fis Mai 2025, a Gareth Llewellyn, a ddechreuodd ei gyfnod ym mis Medi 2025. Mae bywgraffiadau'r Bwrdd wedi'u cynnwys yn Atodiad A.

### Beth yw'r Bwrdd?

**4.** Mae'r Bwrdd Taliadau yn gorff statudol annibynnol sy'n penderfynu ar gyflog yr Aelodau a'r cyllidebau sydd ar gael ar gyfer costau staffio a busnes, gan gadw atebolrwydd a gwerth am arian mewn cof ar yr un pryd.

**5.** Er bod y Bwrdd yn annibynnol ar y Senedd a Chomisiwn y Senedd, ac na all fod yn ddarostyngedig i'w rheolaeth na'u cyfarwyddyd, mae Comisiwn y Senedd yn darparu cymorth ysgrifenyddol i'r Bwrdd i'w helpu i weithio'n effeithiol.

### Beth yw'r Penderfyniad?

**6.** Mae'r Bwrdd yn pennu cyflogau'r Aelodau a'r symiau y gallant eu hawlio ar gyfer costau busnes a chostau staffio mewn dogfen o'r enw y **Penderfyniad**.

**7.** Mae'r Bwrdd yn adolygu'r Penderfyniad bob blwyddyn, gan ystyried trafodaethau gydag Aelodau, staff cymorth a Chomisiwn y Senedd, yn ogystal â'r rhagolygon economaidd ehangach a chwyddiant.

### Sut mae'r Penderfyniad yn cael ei weinyddu?

**8.** Comisiwn y Senedd sy'n gweinyddu'r Penderfyniad, yn prosesu hawliadau'r Aelodau, ac yn darparu canllawiau a chefnogaeth i'r Aelodau a'u staff.

**9.** Rhaid i'r Aelodau ddilyn y **Rheolau ar Ddefnyddio Adnoddau'r Senedd** wrth hawlio costau. Cyhoeddir hawliadau'r Aelodau gan Gomisiwn y Senedd ar

ei **wefan,** ac mae hyn yn unol ag un o egwyddorion y Penderfyniad o ran atebolrwydd a thryloywder.

**10.** Mae rhagor o fanylion am sut mae'r Bwrdd a Chomisiwn y Senedd yn cydweithio wedi'u nodi yn **Siarter** y Bwrdd. Bydd y Bwrdd yn adolygu hyn yn y flwyddyn nesaf.

## Goruchwylio adnoddau gweinyddol a chyllideb y Bwrdd

**11.** Mae Mesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010 [1] yn nodi bod rhaid i Gomisiwn y Senedd roi cymorth gweinyddol o'r fath i'r Bwrdd fel y mae angen rhesymol amdano er mwyn ei alluogi i gyflawni ei swyddogaethau.

**12.** Mae'r Bwrdd yn nodi ei ofynion cyllidebol gweinyddol i'r Prif Weithredwr a'r Swyddog Cyfrifyddu mewn gohebiaeth. Mae cyllideb weinyddol y Bwrdd, fel rhan o gyllideb ddrafft Comisiwn y Senedd, yn destun craffu gan Bwyllgor Cyllid y Senedd.

**13.** Mae manylion y gyllideb hon a sut y gwnaethom ddefnyddio'r gefnogaeth wedi'u nodi yn **Atodiad B**. Roedd y gyllideb yn cynnwys cronfa wrth gefn ar gyfer sicrhau arbenigedd allanol ychwanegol posibl yn ymwneud â materion staffio; er bod rhyw gymaint o gyngor cyfreithiol allanol wedi'i gomisiynu, nid oedd angen y rhan fwyaf o'r gyllideb hon. Ni ymrwymwyd y gyllideb cymorth staffio yn llawn o ganlyniad i nifer o swyddi gwag staff yn dilyn ad-drefnu Comisiwn y Senedd cyn y Seithfed Senedd.

**14.** Mae cyllideb y Penderfyniad hefyd wedi'i chynnwys yng nghyllideb ddrafft Comisiwn y Senedd, a chyfrifir am wariant drwy gyhoeddi hawliadau'r Aelodau bob chwarter ac adroddir ar y gwariant cyffredinol drwy Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol Comisiwn y Senedd.

[1] **Mesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010**

## Egwyddorion y Bwrdd

**15.** Cafodd gwaith y Bwrdd ei arwain ar sail yr egwyddorion a ganlyn:

> *dylai cymorth ariannol a thâl yr Aelodau gefnogi diben strategol y Senedd a hwyluso gwaith ei Haelodau;*
>
> *rhaid i benderfyniadau fod yn briodol yng nghyd-destun enillion yng Nghymru ac amgylchiadau ariannol ehangach Cymru;*
>
> *rhaid i'r system o gymorth ariannol i'r Aelodau fod yn gadarn, yn glir, yn dryloyw, yn gynaliadwy ac yn gynhwysol, a rhaid iddi gynnig gwerth am arian i'r trethdalwr.*

## Rhaglen waith y Bwrdd

**16.** Yn 2022, cytunodd y Bwrdd ar raglen waith i wella'r Penderfyniad yn ystod y Chweched Senedd a pharatoi ar gyfer y Seithfed Senedd.

**17.** Mae'r rhaglen waith strategol ar gyfer 2021-26 yn cynnwys yr amcanion canlynol:

- Penderfyniad Ymatebol
- Penderfyniad Symlach
- Penderfyniad Cynaliadwy
- Hyrwyddo Ymddiriedaeth ac Ymgysylltu

**18.** Yn ystod tymor y Chweched Senedd, cynhaliodd y Bwrdd nifer o adolygiadau thematig i lywio Penderfyniad newydd ar gyfer y Seithfed Senedd estynedig. Cyrhaeddodd gweithgarwch y Bwrdd yn ystod 2025-26 ei anterth yn y cyfnod hwn o adolygu helaeth, gyda drafftio, ymgynghori a chyhoeddi cynigion polisi terfynol, a Phenderfyniad diwygiedig a symlach.

# 4. Penderfyniad ymatebol

“Bydd y Bwrdd yn ceisio cyflwyno Penderfyniad sy'n ymateb i newidiadau i anghenion busnes yr Aelodau, disgwyliadau dinasyddion, a'r cyd-destun cyfansoddiadol newidiol.”

### Penderfyniad ar gyfer y Seithfed Senedd

**19.** Yn ystod y flwyddyn, ymgynghorodd y Bwrdd â'r Aelodau, eu staff a Chomisiwn y Senedd i sicrhau y byddai'r Penderfyniad ar gyfer y Seithfed Senedd yn diwallu anghenion yr Aelodau.

**20.** Cyhoeddwyd Rhan Dau yr Ymgynghoriad rhwng mis Mawrth a mis Mehefin 2025 ac roedd yn cynnwys cynigion ar gyfer newidiadau i'r rheolau ar gyflog a chymorth personol i’r Aelodau, ac ad-dalu costau sy'n ymwneud â chymorth ychwanegol, teithio gan yr Aelodau, y swyddfa etholaethol ac ymgysylltu ag etholwyr a chymorth staffio. Cafodd y Pwyllgor ddeg o ymatebion i'w ymgynghoriad.

**21.** Gan nad oedd drafftio'r Penderfyniad symlach wedi'i gwblhau eto, cyhoeddodd y Bwrdd grynodeb o'i benderfyniadau ar gyfer y Seithfed Senedd ym mis Gorffennaf 2025, gan roi rhybudd cynnar i ymgeiswyr, yr Aelodau, i staff cymorth, yr undebau llafur, y pleidiau a'r cyhoedd am y cyflogau a'r cymorth sydd ar gael yn y Seithfed Senedd.

**22.** Wrth ymgynghori ar y Penderfyniad drafft terfynol a symlach ar gyfer y Seithfed Senedd rhwng mis Rhagfyr 2025 a mis Chwefror 2026, myfyriodd y Bwrdd hefyd ar adborth pellach gan Gomisiwn y Senedd, yr Aelodau a staff cymorth a oedd yn ymgorffori sawl newid polisi arfaethedig ychwanegol.

**23.** Cafodd yr ymgynghoriad un ar ddeg o ymatebion, a chafodd y Penderfyniad symlach a llai adborth cadarnhaol iawn gan y grwpiau gwleidyddol, ac roedd yn adlewyrchu nod cyffredinol y Bwrdd o ran ei symleiddio drwy gydol ei adolygiadau.

**24.** Mae’r Penderfyniad ar gyfer y Seithfed Senedd a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2026 yn uchafbwynt gwaith sylweddol yn ystod cyfnod y Chweched

Senedd, wedi'i lywio gan ymgysylltiad adeiladol ag Aelodau, eu staff a Chomisiwn y Senedd.

**25.** Mae'r Bwrdd yn ceisio sicrhau bod y Penderfyniad yn ymatebol i anghenion penodol yr Aelodau ac i unrhyw newidiadau i fusnes y Senedd neu ffyrdd newydd o weithio, a hyn ynghyd â gwelliannau a nodwyd drwy brofiad bob dydd o wneud neu weinyddu hawliadau.

**26.** Nododd yr adolygiad diwedd tymor:

> ***'…clywsom sawl enghraifft gadarnhaol gan randdeiliaid, ble roedd y Bwrdd wedi bod yn ymatebol i'w hadborth[2].***

**27.** Mae'r Penderfyniad diwygiedig wedi'i gynllunio i ddarparu hyblygrwydd ar gyfer tirwedd seneddol sydd wedi newid, gan gynnwys rhagor o Aelodau, trefniadau etholaethol gwahanol, ffyrdd newydd o weithio a newidiadau posibl i drefniadau busnes, gan gadw mesurau diogelwch i sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio'n gyfrifol ac yn unol â dyletswyddau statudol y Bwrdd.

## Taliadau o ran rhannu swydd cadeirydd pwyllgor

**28.** Pleidleisiodd y Senedd ym mis Chwefror 2026 i gyflwyno Rheol Sefydlog 17A dros dro i alluogi cadeiryddion pwyllgorau i rannu swyddi am gyfnod prawf. Nid oedd y Penderfyniad drafft yn darparu ar gyfer rhannu cyflogau cadeiryddion pwyllgorau ac felly cyhoeddodd y Bwrdd ymgynghoriad byr ar daliadau cadeiryddion pwyllgorau sy'n rhannu swydd. Roedd y cyfnod ymgynghori yn fyr er mwyn i benderfyniad y Bwrdd gael ei adlewyrchu yn y Penderfyniad o ddechrau'r Senedd newydd.

**29.** Daeth pedwar ymateb i law yn sgil yr ymgynghoriad. Cyhoeddodd y Bwrdd **benderfyniad eithriadol** a oedd yn nodi darpariaeth ar gyfer rhannu cyflog Cadeiryddion y Pwyllgorau yn gyfartal rhwng cadeiryddion pwyllgorau sy'n rhannu swydd.

[2] **Adroddiad Diwedd Tymor FinWell**

## Estyn y dyddiad cau ar gyfer gweithredu'r adolygiad staffio

**30.** Ymatebodd y Bwrdd i faterion a godwyd gan nifer o Aelodau ynghylch yr heriau o weithredu'r fframwaith cyflog a graddio newydd ar gyfer staff cymorth cyn dechrau seithfed tymor y Senedd. Er mwyn mynd i'r afael â'r heriau hyn a chefnogi'r Aelodau, ymgynghorodd y Bwrdd ar estyniad arfaethedig i'r terfyn amser ar gyfer gweithredu ym mis Ionawr 2026.

**31.** Cafwyd wyth ymateb i'r ymgynghoriad, gyda mwyafrif yr ymatebwyr yn cefnogi'r estyniad arfaethedig.

**32.** Penderfynodd y Bwrdd estyn y dyddiad cau ar gyfer gweithredu'r fframwaith i 30 Mehefin 2026.

## Treuliau Eithriadol

**33.** Bwriad y Penderfyniad yw rhoi digon o gyllideb i'r Aelodau i sicrhau y gellir talu'r holl gostau busnes neu gostau staffio a ganiateir. Mae'r Penderfyniad yn caniatáu ar gyfer y posibilrwydd y gallai fod angen gwariant neu hyblygrwydd ychwanegol mewn amgylchiadau eithriadol na ragwelwyd yn wreiddiol. Gall yr Aelodau gyflwyno achos i'r Bwrdd am gymorth ariannol eithriadol o'r fath.

**34.** Yn ystod 2025-26 daeth tri chais am dreuliau eithriadol i law'r Bwrdd. Ni chafodd y tri chais eu cymeradwyo.

# 5. Penderfyniad symlach

"Bydd y Bwrdd yn ceisio symleiddio'r Penderfyniad gan gynnwys mwy o hyblygrwydd i Aelodau bennu eu blaenoriaethau eu hunain gyda mesurau diogelu cymesur, mewn cydweithrediad â Chomisiwn y Senedd."

**35.** Mae'r Bwrdd wedi parhau â'i waith i symleiddio'r Penderfyniad, gan ei wneud yn gliriach ac yn haws i Aelodau a'u staff ei ddefnyddio.

**36.** Mae'r adolygiad thematig wedi'i symleiddio wedi canolbwyntio ar gael gwared ar reolaethau diangen, ailddrafftio darpariaethau aneglur neu ddiangen, lleihau dyblygu, a gwella trefniadaeth y cynnwys.

**37.** Adolygodd y Bwrdd hefyd egwyddorion a rheolaethau sylfaenol i roi rhagor o hyblygrwydd i Aelodau wrth reoli adnoddau, gan gynnal mesurau diogelwch cymesur a gwerth am arian.

**38.** Cyrhaeddodd y ffrwd waith symlach, a gynhaliwyd drwy gydol tymor y Chweched Senedd, uchafbwynt yn 2025-26 gyda drafftio, profi ac ymgynghori ar Benderfyniad newydd a oedd yn ymgorffori sawl diwygiad i symleiddio a gwella'r ddogfen:

- Egluro a symleiddio'r iaith a therminoleg
- Dileu dyblygu rhwng penodau
- Mewnosod diben clir a chyson ym mhob pennod
- Dileu cyfeiriadau at brosesau neu bolisïau Comisiwn y Senedd, gan gynnwys y gofynion i gyhoeddi hawliadau'r Aelodau, gan mai mater i'r Comisiwn yw gweinyddu'r Penderfyniad
- Cynnwys lincs http i ddeddfwriaeth, dogfennau neu gyhoeddiadau perthnasol er hwylustod cyfeirio, i gynorthwyo Aelodau a staff cymorth i ddeall a chymhwyso'r Penderfyniad.
- Symud yr holl gyflogau a chostau staffio a busnes hawliadwy i dabl mewn Atodiad

- Mewnosod crynodeb o'r gwelliannau i hawliau statudol yn Nhelerau ac Amodau Staff Cymorth mewn Atodiad.

**39.** Mae'r Penderfyniad terfynol ar gyfer y Seithfed Senedd yn fyrrach, gyda chyfrif geiriau wedi'i leihau 45% o'i gymharu â Phenderfyniad 2025-26.

**40.** Roedd yr adborth i'r ymgynghoriad gan randdeiliaid, gan gynnwys Comisiynydd Safonau'r Senedd, y Prif Weithredwr a'r Clerc, Grŵp Plaid Cymru a Grŵp Llafur Cymru, yn gadarnhaol dros ben, gydag adborth yn nodi gwelliannau o ran hygyrchedd, eglurder a defnyddioldeb i'r Aelodau, a lleihau'r risg i'r Aelodau a gwneud y ddogfen yn fwy tryloyw i'r cyhoedd ar yr un pryd..

# 6. Penderfyniad cynaliadwy

Bydd y Bwrdd yn ceisio "cyflwyno model cynaliadwy o gefnogaeth, sy'n ystyried anghenion o ran amrywiaeth, yr argyfwng newid yn yr hinsawdd a chyllid yn y tymor hir yng Nghymru."

### Cymorth ychwanegol i'r Aelodau

**41.** I baratoi ar gyfer y Seithfed Senedd ymgynghorodd y Bwrdd ar gynigion i sicrhau bod y derminoleg yn briodol yn y Penderfyniad a bod y cymorth sydd ar gael yn ddigonol, yn adlewyrchu model cymdeithasol anabledd, ac yn ddigon ymatebol i ddiwallu anghenion yr Aelodau o ran amrywiaeth, ac anghenion eu hetholwyr.

**42.** Ymgynghorodd y Bwrdd ar newidiadau i'r Bennod ar Gefnogaeth Ychwanegol sy'n cynnwys symleiddio ac egluro trefniadau, lleihau'r baich gweinyddol ar Aelodau a'u staff cymorth ac alinio costau gofal neu lety dros nos ychwanegol â chyfraddau perthnasol y farchnad, yn ogystal ag ar sail fesul dibynnydd, ac ymgorfforodd y newidiadau.

**43.** Cynhaliodd y Bwrdd hefyd **asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb**, ac **asesiad atodol o'r effaith ar gydraddoldeb** ac **Asesiad o'r effaith ar y Gymraeg** o'i Benderfyniad ar gyfer y Seithfed Senedd.

**44.** Cydnabuwyd ymrwymiad a gwaith y Bwrdd yn **'Senedd i Bawb'**, adroddiad Bwrdd yr Adolygiad o Senedd sy'n Gynhwysol ac yn Ystyriol o Deuluoedd (a gyhoeddwyd ar 3 Mawrth 2026) a ddaeth i'r casgliad bod y Bwrdd:

> *'... yn arwain y ffordd o ran darparu costau gofal plant 'y tu allan i oriau arferol', drwy sicrhau y gellir eu hawlio yn y dyfodol yn ystod Toriadau ac ar benwythnosau, yn ogystal â chyda'r nos. Mae'r Bwrdd hefyd wedi gwella'r ddarpariaeth i ddibynyddion yr Aelodau deithio, yn ogystal â galluogi Aelodau cymwys i ddarparu llety i ddibynyddion ychwanegol yn eu llety yng Nghaerdydd.'*

## Gwerth am arian

**45.** Wrth ystyried 'gwerth am arian' a chynaliadwyedd cyllidol yng nghyd-destun ei holl benderfyniadau, mae'r Bwrdd yn cael ei lywio gan ddata a thystiolaeth gymharol, gan gynnwys hawliadau'r Aelodau (a gyhoeddir ar-lein), data meincnodi cyflogau, a data economaidd a dadansoddiad rhagolygon, gan gynnwys cyfraddau'r farchnad leol yng Nghaerdydd.

**46.** Mae'r Bwrdd yn ystyried goblygiadau cost ei holl benderfyniadau ac yn parhau â'i ymrwymiad i wneud ei benderfyniadau yng nghyd-destun economi ehangach Cymru.

**47.** Wrth ystyried goblygiadau tymor hwy ei gynigion yng ngoleuni'r Seithfed Senedd estynedig, ystyriodd y Bwrdd y goblygiadau cyllidebol o ran Aelodau ychwanegol a staff cymorth ychwanegol.

**48.** Er bod costau cyffredinol y Penderfyniad ar gyfer y Seithfed Senedd yn cynyddu oherwydd 36 o Aelodau ychwanegol, penderfyniadau'r Bwrdd, yn bennaf, oedd cynyddu cyllidebau'r Aelodau yn unol â chwyddiant yn unig:

- Penderfynodd y Bwrdd fod cyflogau Aelodau a deiliaid swyddi ychwanegol, gwaith etholaeth a chyllidebau llety dros nos yn parhau i fod yn briodol ac felly roedd y rhain yn cynyddu yn unol ag enillion cyfartalog Cymru (cyflogau Aelodau) neu chwyddiant.

- Cynyddodd y gyllideb staffio ychydig, sef 2.6% (yn ychwanegol at y cynnydd mewn cyflogau staff yn unol ag enillion cyfartalog Cymru) o ganlyniad i feincnodi gan y Bwrdd a'r adolygiad o gyflogau staff.

- Cynyddodd rhai cyllidebau eraill, gan gynnwys costau o ran Aelodau â chyfrifoldebau gofalu neu anghenion llety ar gyfer dibynyddion, gan eu bod naill ai wedi'u meincnodi i gyfraddau rhentu Caerdydd neu y byddant yn cael eu darparu fesul dibynnydd yn hytrach nag fesul Aelod yn ystod y Seithfed Senedd.

## Cynaliadwyedd amgylcheddol

**49.** Mae'r Bwrdd wedi adolygu'r Bennod ar Deithio o ran y Penderfyniad ar gyfer y Seithfed Senedd. Er bod y Bwrdd yn cydnabod bod angen parhau i roi hyblygrwydd a disgresiwn i'r Aelodau, o gofio bod dewisiadau teithio llesol yn gyfyngedig mewn rhai ardaloedd, mae'r Penderfyniad yn parhau i'w gwneud yn ofynnol i Aelodau geisio sicrhau bod unrhyw wariant a achosir yn darparu

gwerth am arian i'r trethdalwr, ac yn cynrychioli'r opsiwn mwyaf cynaliadwy a rhesymol sydd ar gael.

**50.** Mae'r Penderfyniad hefyd yn nodi y dylai'r Aelodau a'u staff cymorth geisio teithio yn y ffordd fwyaf cynaliadwy sy'n bosibl ac yn briodol ac mae hefyd yn annog 'rhannu ceir'.

**51.** Mae'r Penderfyniad hefyd yn darparu o ran bod yr Aelodau a'u staff cymorth yn cael mynediad at gynlluniau aberthu cyflog Comisiwn y Senedd, gan gynnwys ar gyfer cerbydau trydan a'r cynllun beicio i'r gwaith.

# 7. Hyrwyddo ymddiriedaeth ac ymgysylltu

"Bydd y Bwrdd yn ceisio ymgysylltu ag ystod eang o randdeiliaid er mwyn gallu cynnal adolygiadau effeithiol a hyrwyddo ymddiriedaeth y cyhoedd."

## Adolygiad Diwedd Tymor

**52.** Mae'r Bwrdd wedi ymrwymo i lywodraethu da a hunan welliant, ac fe gomisiynodd adolygiad annibynnol Diwedd Tymor yn ystod yr haf 2025 i ystyried ffyrdd o weithio'r Bwrdd, cynnydd yn erbyn ei amcanion a cheisiodd nodi unrhyw wersi a ddysgwyd ar gyfer y Bwrdd newydd. Ymrwymodd y Bwrdd i gyhoeddi'r adroddiad yn llawn ar ôl ei gwblhau.

**53.** Cynhaliwyd yr adolygiad annibynnol gan FinWell Coaching & Consulting Ltd, a cheisiodd farn aelodau'r Bwrdd yn ogystal â Chomisiwn y Senedd a chynrychiolwyr yr Aelodau a'u staff. Cyhoeddodd y Bwrdd yr **adroddiad** a'r **ymatebion** iddo ym mis Rhagfyr 2025.

**54.** Daeth yr adolygiad annibynnol i'r casgliad bod y Bwrdd:

> ***'...yn Fwrdd sy'n gweithredu'n dda ac yn effeithiol, yn enwedig yng nghyd-destun ei faint a'i adnoddau cyfyngedig...***
>
> ***[Mae'r] fframwaith llywodraethu yn gymesur, yn addas at y diben, ac yn hwyluso gwneud penderfyniadau o ansawdd da.'***

**55.** Croesawodd y Bwrdd yr adroddiad a derbyniodd yr argymhellion yn llawn. Mae'r adolygiad wedi rhoi sicrwydd i'r Bwrdd bod ei ddull gweithredu o ran busnes a llywodraethu yn effeithiol ac mae hefyd wedi nodi sawl thema ac argymhelliad i gryfhau trefniadau a chynllunio strategol y Bwrdd ymhellach ar gyfer ei dymor newydd.

**56.** Yn unol ag argymhellion yr Adolygiad, mae Gareth Llewellyn wedi'i ddynodi'n uwch aelod o'r Bwrdd i ddirprwyo ar ran y Cadeirydd pan fo angen. Mae ef hefyd yn arwain y gwaith o ddatblygu dull y Bwrdd o roi adborth ar bolisi, er mwyn galluogi data ac adborth cymesur ac amserol i sicrhau bod y

Penderfyniad yn cael ei adolygu a'i lywio yn ôl y profiad a gafwyd o weithredu penderfyniadau'r Bwrdd.

**57.** Roedd yr adolygiad yn tynnu sylw at y ffaith bod perthnasoedd y Bwrdd â rhanddeiliaid allweddol yn gadarnhaol ac yn adeiladol ar y cyfan, er iddo argymell adolygu dull y Bwrdd o ymgysylltu â rhanddeiliaid, ac mae'r gwaith hwn wedi dechrau a bydd yn parhau yn y Seithfed Senedd. Mae'r gwaith ymgysylltu â rhanddeiliaid yn cael ei arwain gan yr Arglwydd Nick Bourne, a Jennifer Long yw aelod y Bwrdd sy'n arwain o ran materion pensiynau a staffio.

**58.** Mae'r Bwrdd wedi rhoi sylw i nifer o argymhellion eraill sy'n ymwneud â llywodraethu a strategaeth, gan gynnwys ystyried cydbwysedd a chymesuredd yr egwyddorion a'r rheolau wrth gwblhau'r Penderfyniad, nodi risgiau strategol ac amserlennu materion llywodraethu arferol drwy gydol y flwyddyn.

**59.** Bydd y Bwrdd yn gweithredu camau pellach mewn ymateb i argymhellion yr Adolygiad fel rhan o Strategaeth y Bwrdd newydd ar gyfer 2026-30 a'i raglen waith ar gyfer 2026-27, gan gynnwys adolygiad o'i Egwyddorion Llywodraethu y Bwrdd a'i Ganllawiau ar Gynnal Busnes. Adroddir ar gynnydd mewn adroddiadau blynyddol yn y dyfodol.

## Ymgysylltu â'r Aelodau a'u staff

**60.** Er mwyn hybu dealltwriaeth o'u gwaith a cheisio adborth ar y cymorth a ddarperir drwy'r Penderfyniad, mae'r Bwrdd wedi ceisio ymgysylltu'n eang ag Aelodau'n anffurfiol yn 2025-26, ac yn ffurfiol drwy bedwar ymgynghoriad.

**61.** Bu ymgysylltiad helaeth ynghylch y fframwaith cyflogau a graddio staff.

**62.** Cyfarfu'r Bwrdd â'r Grŵp Cynrychiolwyr yr Aelodau trawsbleidiol bedair gwaith a'r Grŵp Cynrychiolwyr Staff, a oedd yn cynnwys cynrychiolwyr o undebau llafur Unite a PCS cangen Plaid Cymru, bedair gwaith.

**63.** Roedd pedair sesiwn 'galw heibio' anffurfiol a dau gyfarfod penodol ble'r oedd aelodau'r Bwrdd ar gael i drafod materion o bryder neu o ddiddordeb i'r Aelodau.

## Tryloywder ac Atebolrwydd

**64.** Mae'r Bwrdd wedi ymrwymo i sicrhau ei fod yn agored a thryloyw a'i fod yn atebol am ei benderfyniadau, ac yn cyhoeddi'r wybodaeth a'r dystiolaeth sydd wedi llywio ei benderfyniadau.

**65.** Yn unol â symleiddio'r Penderfyniad ei hun, mae'r Bwrdd wedi ceisio cyfeirio Aelodau a'r cyhoedd yn well at ddogfennau perthnasol (er enghraifft y Rheolau a'r Canllawiau ar Ddefnyddio Adnoddau'r Senedd), yn ogystal â symleiddio deunyddiau cyhoeddus ar wefan y Bwrdd, gan gynnwys cyfres o friffiau 'Ynglŷn â'r Bwrdd' ac 'Ynglŷn â'r Penderfyniad' ar ei wefan.

**66.** Nododd yr adolygiad diwedd tymor:

> ***"Gwelsom lefelau uchel o dryloywder gyda gwybodaeth wedi'i chyfeirio'n dda ar draws gwefan y Bwrdd fel yn achos gwybodaeth gorfforaethol."***
>
> ***"Cyhoeddir llawer o'i waith [y Bwrdd] yn llawn, gydag elfen o dryloywder sydd ymhell y tu hwnt i'r hyn a welir mewn llawer o rannau eraill o'r sector cyhoeddus."***

## Ymgysylltu â gwaith Pwyllgorau'r Senedd

**67.** Yn ystod y flwyddyn, mae'r Bwrdd wedi ceisio darparu tystiolaeth ar gyfer amrywiol bwyllgorau'r Senedd a rhoi gwybodaeth iddynt am ei raglen waith. Mae'r Bwrdd wedi ysgrifennu at:

- y Pwyllgor Bil Atebolrwydd Aelodau ynghylch Bil Senedd Cymru (Atebolrwydd Aelodau ac Etholiadau)
- y Pwyllgor Safonau Ymddygiad am ei Ymgynghoriad ar gyflwyno mwy o annibyniaeth i gefnogi'r broses gwyno yn y Senedd; ac

**68.** Ysgrifennodd y Bwrdd hefyd at Gadeirydd Bwrdd yr Adolygiad o Senedd sy'n Gynhwysol a Chyfeillgar i Deuluoedd, a chyfarfu ag ef.

## Sgyrsiau â Chomisiwn y Senedd

**69.** Parhaodd y Bwrdd â'i ddeialog adeiladol â Chomisiwn y Senedd yn ystod 2025-26, gan edrych ar faterion o ddiddordeb cyffredin a llywio paratoadau ar gyfer cyfnod y Seithfed Senedd.

**70.** Cyfarfu'r Cadeirydd â'r Llywydd a'r Comisiynydd â chyfrifoldeb am y Gyllideb a Llywodraethu ynghylch goblygiadau'r gyllideb a chynigion y Penderfyniad terfynol. Cyfarfu'r Cadeirydd hefyd â Phrif Weithredwr a Chlerc y Senedd sawl gwaith yn ystod y flwyddyn i drafod gwaith y Bwrdd a sut y mae'n ymwneud â chyfrifoldebau'r Comisiwn ar gyfer gweithredu penderfyniadau'r Bwrdd. Mae'r cyfarfodydd hefyd wedi cynnwys trafodaethau ar baratoi ar gyfer y Seithfed Senedd a chyllidebu.

## Rhwydweithiau taliadau'r DU

**71.** Aeth y Cadeirydd i dri chyfarfod Cadeiryddion cyrff taliadau pedair deddfwrfa'r DU.

**72.** Mae'r rhwydwaith yn gyfle i drafod gwahanol ddulliau o fynd i'r afael â'r heriau o hwyluso gwaith yr Aelodau. Ymhlith y materion a drafodwyd roedd cyflog yr Aelodau, cyflog adsefydlu i Aelodau, dulliau o werthuso effeithiolrwydd y bwrdd, ymgysylltu â'r cyhoedd a chyflog a graddfeydd staff.

**73.** Mae ysgrifenyddiaeth y Bwrdd wedi parhau i gadw mewn cysylltiad rheolaidd â chydweithwyr yng ngwahanol gyrff taliadau'r DU er mwyn rhannu arfer da a datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth.

# 8. Edrych ymlaen – tymor newydd y Senedd

**74.** O ystyried yr adolygiad cyfannol o'r Penderfyniad ar gyfer y Seithfed Senedd a'r newidiadau i'r Senedd ei hun, gan gynnwys Aelodau ychwanegol, etholaethau aml-aelod, a newidiadau posibl i ffyrdd o weithio yr Aelodau a busnes y Senedd, bydd y Bwrdd yn sicrhau y caiff y Penderfyniad newydd ei adolygu'n fanwl yn ystod camau cynnar y Seithfed Senedd. Bydd yn parhau i ymgysylltu ag Aelodau a staff i ddeall sut mae'r trefniadau'n gweithio'n ymarferol ac a oes angen mireinio ymhellach.

**75.** Bydd y Bwrdd yn monitro'n agos sut mae'r Penderfyniad newydd yn gweithredu'n ymarferol, gan gynnwys ei effeithiolrwydd, ei werth am arian a'i atebolrwydd, a bydd yn nodi unrhyw agweddau y gallai fod angen eu hadolygu'n gynnar yn nhymor newydd y Senedd.

**76.** Bydd y Bwrdd yn ymateb i'r argymhellion yn yr adroddiad Diwedd y Tymor drwy ei Strategaeth 2026–30 a'i Egwyddorion Llywodraethu a'i Ganllawiau ar Gynnal Busnes; bydd y Bwrdd yn ymgynghori ar ei Strategaeth ddrafft yn gynnar yn nhymor newydd y Senedd a bydd yn nodi blaenoriaethau ei raglen waith a'i ofynion cyllidebol ar gyfer y cyfnod nesaf.

**77.** Mae'r Bwrdd yn parhau i fod wedi ymrwymo i ymgysylltu a gwneud penderfyniadau agored a thryloyw.

**78.** I gyfrannu at waith y Bwrdd, anfonwch neges e-bost at **taliadau@senedd.cymru**.

# Atodiad A: Bywydau Aelodau'r Bwrdd



**Dr. Elizabeth Haywood**

## Dr. Elizabeth Haywood (Cadeirydd)

Mae Elizabeth yn Gyfarwyddwr Anweithredol a Chadeirydd profiadol. Yn flaenorol mae wedi bod yn aelod o Fwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru ac yn gadeirydd ei Bwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd, yn aelod o Fwrdd Scottish Power Energy Networks, Grŵp Hendre, Leonard Cheshire, yn aelod annibynnol o Fwrdd Taliadau Swyddfa Archwilio Cymru, ac yn Gadeirydd cyntaf CGGC Services Ltd. Cadeiriodd Dasglu Gweinidogol Llywodraeth Cymru ar Ddinas-ranbarthau.

Treuliodd ei gyrfa gynnar yn Senedd Ewrop ac Awdurdod Datblygu Cymru, cyn iddi gael ei phenodi'n Gyfarwyddwr CBI Cymru, yna'n Gyfarwyddwr Cyfathrebu Cymdeithas y Cwmnïau Trenau ac yna fe redodd gwmni chwilio am uwch-swyddogion yng Nghaerdydd a Llundain.

Mae ganddi radd economeg o Brifysgol Caerdydd, PhD a doethuriaeth er anrhydedd gan Abertawe, a hi oedd enillydd cyntaf Gwobr Cymraes y Flwyddyn, ac mae'n Gymrawd Mygedol ym Mhrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant.

Cafodd Elizabeth ei phenodi'n Gadeirydd Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd ym mis Mehefin 2020.



**Lord Nicholas Bourne**

## Yr Arglwydd Nicholas Bourne

Bu Nick Bourne yn Aelod o'r Cynulliad am 12 mlynedd rhwng 1999 a 2011, gan gynnwys cyfnod fel arweinydd yr Wrthblaid. Yna, bu'n aelod o Gomisiwn Silk ar Ddatganoli yng Nghymru, a Chomisiwn Williams ar Ddarparu Gwasanaethau Cyhoeddus a Llywodraethiant, gan adolygu rôl y Cynulliad a lle llywodraeth leol yng Nghymru, yn y drefn honno. Yn 2012–14, bu hefyd yn cadeirio Ardal Fenter Dyfrffordd y Daugleddau.

Cafodd ei ddyrchafu i Dŷ'r Arglwyddi ar 9 Medi 2013 a chymerodd rolau Gweinidogol gan gynnwys yn Swyddfa Cymru, gan wasanaethu fel Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol yn ystod 2015-17 a 2017-19. At hynny, mae wedi gwasanaethu mewn rolau Gweinidogol eraill gan gynnwys fel Is-ysgrifennydd Seneddol yn Swyddfa Gogledd Iwerddon, y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol a'r Adran Ynni a Newid Hinsawdd. Mae hefyd wedi gwasanaethu fel Chwip y Llywodraeth.



Gareth Llewellyn

## Gareth Llewellyn

Ar hyn o bryd, Gareth yw Cadeirydd Transport Infrastructure Ireland, a chyn hynny roedd yn gadeirydd Scottish Rail Holdings Ltd. Mae wedi dal rolau cyfarwyddwr anweithredol yn Sage Homes, Biffa plc, Awdurdod Harwich Haven, yr Asiantaeth Tanwyddau Adnewyddadwy, National Grid Property, a'r Bwrdd Diogelwch a Safonau Rheilffyrdd. Mae wedi dal rolau gweithredol byd-eang yn National Grid plc ac Anglo American plc, bu'n gyfarwyddwr gweithredol yn Network Rail ac yn Brif Weithredwr yr Asiantaeth Safonau Gyrwyr a Cherbydau.

Mae Gareth wedi cadeirio pwyllgorau'r Bwrdd Taliadau yn Sage Homes Ltd ac Awdurdod Harwich Haven ac roedd yn aelod o'r Pwyllgor Taliadau yn Biffa plc. Ganwyd ac addysgwyd Gareth yng Nghymru, a graddiodd o Brifysgol Abertawe.



Jennifer Long

## Jennifer Long

Mae Jennifer Long yn ymgynghorydd sy'n arbenigo mewn cyngor i awdurdodau cyhoeddus yn rhyngwladol ynghylch rheolaeth gwasanaethau ariannol, llywodraethu a thaliadau. Hi gynhaliodd adolygiad statudol diwethaf yr Awdurdod Safonau Seneddol Annibynnol (IPSA) o daliadau Aelodau Seneddol San Steffan, a chafodd ei phenodi'n adolygydd taliadau statudol ar gyfer senedd Jersey yn 2023.

Mae Jennifer yn Ysgolor Gwadd yn y Gronfa Ariannol Ryngwladol a bu'n gwasanaethu tan fis Gorffennaf 2024 fel cynrychiolydd defnyddwyr ar Grŵp Rhanddeiliaid Bancio yr Awdurdod Bancio Ewropeaidd.

Dechreuodd ei gyrfa fel Clerc yn Nhŷ'r Cyffredin, a bu’n gweithio fel rheoleiddiwr gwasanaethau ariannol am dros ugain mlynedd yn y DU a’r Undeb Ewropeaidd, gan gynnwys nifer o flynyddoedd yn ysgrifenyddiaeth Senedd Ewrop.



**Hugh Widdis**

## Hugh Widdis

Hugh Widdis yw Ysgrifennydd Parhaol yr Adran Cyfiawnder yng Ngweithrediaeth Gogledd Iwerddon, a dechreuodd yn y rôl hon ym mis Ebrill 2024. Mae ganddo 24 mlynedd o brofiad o weithio mewn gwasanaethau cyfreithiol, seneddol a llywodraethol.

Rhwng 2015 a 2024, Hugh oedd Pennaeth Gwasanaeth Cyfreithiol y Llywodraeth ar gyfer Gogledd Iwerddon a'r Cyfreithiwr Adrannol ar gyfer Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon. Yn ystod 2017-18, ef oedd Ysgrifennydd Parhaol yr Adran Gyllid.

Cyn ymuno â Gwasanaeth Sifil Gogledd Iwerddon, Hugh oedd Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu Cynulliad Gogledd Iwerddon.

Mae Hugh wedi gweithio ym maes ymchwil yn y gorffennol, ac fel bargyfreithiwr mewn practis preifat. Mae hefyd wedi gweithio yn swyddfa gyfreithiol Senedd yr Alban, ac wedi gwneud gwaith ar gyfraith gwahaniaethu yn Swyddfa'r Prif Weinidog a'r Dirprwy Brif Weinidog. Roedd yn aelod o Bwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg Comisiwn Senedd Cymru rhwng 2012 a 2019.

Mae Hugh yn fargyfreithiwr ac yn aelod o Far Iwerddon a Bar Gogledd Iwerddon. Mae Hugh yn Llywodraethwr yn Academi Banbridge ac yn aelod o fwrdd Fforwm y Prif Weithredwyr.

# Atodiad B: Gwariant y Bwrdd 2025-26

Mae adran 11 o Fesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010 yn nodi bod rhaid i'r Adroddiad Blynyddol sy'n manylu ar weithgarwch y Bwrdd gynnwys sut y mae'r Bwrdd wedi defnyddio ei adnoddau yn ystod y flwyddyn ariannol..

Mae'r tablau a ganlyn yn dangos costau uniongyrchol y Bwrdd Taliadau ym mlwyddyn ariannol 2025-26. Yn ystod y flwyddyn cynhaliwyd naw cyfarfod ffurfiol o'r Bwrdd yn ogystal â chyfarfodydd unigol y Cadeirydd a /neu aelodau'r Bwrdd gyda'r ysgrifenyddiaeth, Comisiwn y Senedd, rhanddeiliaid eraill a sesiynau galw heibio gydag Aelodau a staff cymorth. Cynhaliwyd rhai o'r cyfarfodydd hyn wyneb yn wyneb yn Nhŷ Hywel, ac roedd eraill yn hybrid neu'n rhithwir.

Mae Tabl 1 a Thabl 2 yn manylu ar ffioedd a threuliau aelodau'r Bwrdd.

***Tabl1 - Ffioedd aelodau'r Bwrdd[3]***

| | **Y Fonesig Jane Roberts[4]** | **Yr Arglwydd Nicholas Bourne [5]** | **Dr Elizabeth Haywood** | **Jennifer Long[5]** | **Gareth Llewellyn[6]** | **Hugh Widdis[7]** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm** | £1,467.22 | £6,964.26 | £11,811.19 | £7,384.59 | £4,174.57 | £0.00 |

Y gyfradd ddyddiol ar gyfer y Cadeirydd yw £400, y gyfradd am hanner diwrnod yw £200 a chyfradd yr awr yw £53.33.

Y gyfradd ddyddiol ar gyfer aelodau'r Bwrdd yw £310, y gyfradd am hanner diwrnod yw £155 a chyfradd yr awr yw £41.33.

[3] Nid yw'r ffioedd yn cynnwys costau yswiriant gwladol cyflogwyr a delir gan Gomisiwn y Senedd.
[4] Daeth tymor y Fonesig Jane Robert i ben ym mis Medi 2025
[5] Dechreuodd yr Arglwydd Nicholas Bourne a Jennifer Long eu tymor hwy ym mis Mai 2025
[6] Dechreuodd Gareth Llewellyn ei dymor ym mis Medi 2025
[7] Nid yw Hugh Widdis yn hawlio ffioedd am ei waith ar y Bwrdd.

### *Tabl 2 – Teithio a chynhaliaeth aelodau'r Bwrdd*[8]

| | Y Fonesig Jane Roberts | Yr Arglwydd Nicholas Bourne | Dr Elizabeth Haywood | Jennifer Long | Gareth Llewellyn | Hugh Widdis |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Milltiroedd mewn car** | £0.00 | £0.00 | £173.95 | £0.00 | £0.00 | £24.30 |
| **Tacsi/Llogi car** | £0.00 | £69.28 | £0.00 | £0.00 | £0.00 | £203.60 |
| **Teithiau awyr** | £0.00 | £0.00 | £0.00 | £0.00 | £0.00 | £100.70 |
| **Trên a'r Tiwb** | £185.39 | £381.55 | £81.84 | £567.15 | £312.70 | £22.79 |
| **Tollau** | £0.00 | £0 | £0.00 | £0.00 | £0.00 | £0.00 |
| **Treuliau eraill** | £0.00 | £8.00 | £0.00 | £0.00 | £0.00 | £141.40 |
| **Llety** | £236.97 | £375.46 | £623.93 | £394.96 | £224.97 | £307.97 |
| **Cynhaliaeth sy'n gysylltiedig ag aros dros nos (bwyd a diod di-alcohol)** | £20.00 | £60.00 | £100.00 | £0.00 | £60.00 | £51.00 |
| **Cyfanswm** | **£442.36** | **£894.29** | **£979.72** | **£962.11** | **£597.67** | **£851.76** |

Mae Tabl 3 yn dangos costau eraill a gafwyd gan y Bwrdd megis y rhai sy'n gysylltiedig â chynnal cyfarfodydd wyneb yn wyneb, a chyngor ac arbenigedd allanol, gan gynnwys cyngor cyfreithiol ar faterion cyflogaeth a'r adolygiad annibynnol diwedd tymor.

***Tabl 3 - Costau ychwanegol***

| | |
|---|---|
| **Tâl blynyddol y Comisiwn Gwybodaeth** | £52.00 |
| **Ymchwil a chyngor arbenigol** | £33,790.75 |
| **Arlwyo (ar gyfer cyfarfodydd wyneb yn wyneb)** | £657.99 |
| **Cyfanswm** | £34,500.74 |

[8] Mae Tabl 2 yn dangos symiau'r hawliadau teithio a chynhaliaeth a wnaed gan aelodau'r Bwrdd yn ystod blwyddyn ariannol 2025-26 am fynychu cyfarfodydd. Dyma'r costau net sy'n dangos costau YG ac addasiadau'r flwyddyn flaenorol.

*Tabl 4 - Cyfanswm y costau*

| | |
|---|---|
| **Cyfanswm ffioedd aelodau'r Bwrdd (Tabl 1)** | £31,801.83 |
| **Cyfanswm teithio a chynhaliaeth aelodau'r Bwrdd (Tabl 2)** | £4,727.91 |
| **Costau ychwanegol (Tabl 3)** | £34,500.74 |
| **Costau staffio**[9] | £419,709.87 |
| **Cyfanswm y costau ar gyfer 2024-25** | **£490,740.35** |

[9] Mae costau staffio ar gyfer y tîm clercio sy'n cefnogi'r Bwrdd wedi'u cynnwys yma fel y cytunwyd arno â Chomisiwn y Senedd ar gyfer 2025-26.






**BWRDD** TALIADAU
REMUNERATION **BOARD**